# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

**Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2016**

**Amser: 09.32 - 12.15**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3326

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Rees AC<br>Alun Davies AC<br>John Griffiths AC<br>Altaf Hussain AC<br>Elin Jones AC<br>Jenny Rathbone AC (yn lle Lynne Neagle AC)<br>Gwyn R Price AC<br>Lindsay Whittle AC<br>Kirsty Williams AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Vaughan Gething AC, Y Dirprwy Weinidog Iechyd<br>Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Martin Sollis, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17: paratoi ar gyfer y sesiwn dystiolaeth lafar

1.1 The Committee discussed its approach to the scrutiny of the Draft Budget 2016-17.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar a Lynne Neagle. Dirprwyodd Jenny Rathbone ar ran Lynne Neagle.

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gwaith y Dirprwy Gweinidog Iechyd ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

3.2 Cytunodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog i ddarparu'r canlynol:

- amlinelliad o sut mae'r £200 miliwn ychwanegol i gefnogi cyflenwi craidd y GIG wedi cael ei ddosbarthu;
    - ymateb i'r ffigurau a amlinellwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru *Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n gwneud digon?*' (Hydref 2015) sy'n dangos - ar sail dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru bod 16.8 y cant o ostyngiad i gyllidebau gwasanaethau ataliol, o £147.3 miliwn yn 2013-14 i £122.5 miliwn yn 2014-15, gyda saith o'r meysydd a adolygwyd ganddynt yn gweld eu cyllidebau yn gostwng.

- dadansoddiad o'r gwariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2016-17, yn cynnwys:
  - manylion y dyraniadau cyfalaf dewisol i fyrddau iechyd lleol;
  - manylion am gostau'r cynlluniau yn 2016-17 sy'n cael eu hariannu yn barod;
  - manylion y dyraniadau cyfalaf newydd ar gyfer 2016-17.

3.3 Datganodd David Rees y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae ei wraig yn cael ei chyflogi fel radiograffydd uwch-arolygydd gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2015.

4.1a Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

### 4.2 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

4.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 5 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac ar gyfer eitem 1 y cyfarfod ar 20 Ionawr 2016

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Dirprwy Weinidog a chytunwyd i ysgrifennu atynt i ofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion a gododd yn ystod y sesiwn.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r llythyr hwn yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i lywio'r craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17.

## 7 Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: trafod y deilliannau

7.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr drafft at y Dirprwy Weinidog Iechyd a chytunwyd ar y llythyr hwnnw, yn amodol ar fân newidiadau.

## 8 Etifeddiaeth Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad: trafod y dull gweithredu

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull gweithredu a chytunodd arno.

## 9 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafodaeth am y drefn o ran ystyried trafodion Cyfnod 2

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn ystyried trafodion Cyfnod 2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) mewn egwyddor.